**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2010-2011

Tachwedd 2009

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc:**
**Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2010-2011**

## Cefndir

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 27.3, bu'r Pwyllgor yn trafod cyllideb ddrafft 2010-11 yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2009, gan graffu ar waith Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

2. Cyflwynodd y Gweinidog dystiolaeth ysgrifenedig hefyd, sydd i'w gweld ar wefan y Pwyllgor yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-cyp-home/bus-committees-third-cyp-agendas.htm

3. Mae adroddiad byr ar drafodaethau ac argymhellion y Pwyllgor yn dilyn.

## Materion a godwyd gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

4. Croesawodd y Gweinidog y cyfle i gyflwyno'i chyllideb i Aelodau.

5. Wrth graffu ar gyflwyniad y Gweinidog, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad a rhagor o fanylion ar y materion a ganlyn:

a) Pa benderfyniadau anodd a wnaed wrth baratoi'r gyllideb ddrafft mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc?

b) Sut mae'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu Ymrwymiad 110 o'r ddogfen *Cynllun Cyflenwi Cymru'n Un* sydd â'r bwriad o 'Fwrw ymlaen â darparu gofal plant cyffredinol fforddiadwy gyda chefnogaeth ychwanegol gan gynnwys gofal plant estynedig llawn-amser am ddim o safon uchel i blant 2 flwydd oed yn yr ardaloedd lle mae'r angen fwyaf?'

c) A yw'r gyllideb ddrafft yn dryloyw ac yn agored ar gyfer ei dadansoddi a'i chraffu arni, o ran y gwariant ar blant a phobl ifanc?

d) A yw cyflwyno system gynllunio a chofnodi newydd, a arweiniodd at ail-strwythuro cyllidebau'r Llywodraeth, wedi bod yn gyfle a gollwyd i fwrw ymlaen â'i hymrwymiad i gyllidebu ar gyfer plant?

e) A yw'r Gweinidog yn hyderus fod y gyllideb ddrafft yn cynnwys digon o arian, drwy'r holl Brif Grwpiau Gwariant, i wneud cynnydd o ran yr ymrwymiadau yn *Cymru'n Un* i fynd i'r afael â thlodi plant?

f) A yw'r Gweinidog yn hyderus fod y gyllideb ddrafft yn cynnwys digon o arian i fynd i'r afael â'r goblygiadau ariannol a gysylltir â'r amcanion Tlodi Plant yn y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)?

g) Mae angen eglurhad ar sylwadau'r Gweinidog fod y gyllideb ddrafft yn cynnwys digon o arian ar gyfer 'hyrwyddo cynhwysiant, gostwng difreintedd a mynd i'r afael â thlodi o ran cyfleoedd addysgol.'

h) Mae angen eglurhad ar sut y bydd gwasanaethau ar gyfer plant sydd ag anghenion ac anableddau dysgu ychwanegol, a ddarparwyd yn y gorffennol ag arian ychwanegol yn y gyllideb ddrafft, yn cael eu hasesu o ran yr effaith ar yr ystod eang o wasanaethau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc anabl.

i) A fydd arian wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn nyraniadau cyllideb 2010-11, ar wahân i arian ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl oedolion?

j) A oedd y Gweinidog o'r farn fod y £1.5 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb 'Cymorth i Ddysgwyr ' yn ddigonol i ddarparu'r amcan a nodwyd gan yr Adran Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, sef sicrhau bod gwasanaeth cwnsela ar gael i holl blant a phobl ifanc Cymru?

k) Mae angen eglurhad ar sut mae'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu argymhellion y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ei adroddiad ar 'Rianta yng Nghymru, a rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith.'

*l)* Mae angen eglurhad ar y cynnydd y mae'r Gweinidog yn ei ddisgwyl i'r Uned Eiriolaeth Genedlaethol ei wneud yn 2010-11, yn benodol o ran cyflawni amcanion y Prosiect Eiriolaeth Cenedlaethol.

m) A yw'r Gweinidog yn credu bod y gyllideb ddrafft ar gyfer y Grant Cynhwysiant, sef £1 miliwn yn 2010-2011, yn ddigonol i hyrwyddo'n cynhwysiant ar gyfer yr holl blant sy'n byw yng Nghymru, yn cynnwys plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches?

n) Ym mha ffordd yr oedd canfyddiadau'r ymarfer Gwerthuso'r Adolygiad o Wariant wedi effeithio ar weithrediadau a oedd wedi'u canoli ar blant yn y gyllideb ddrafft.

**Materion sy'n pryderu'r Aelodau:**

**Tryloywder gwariant a gynlluniwyd**

6. Yn dilyn ailstrwythuro'r gyllideb a'r newid o Linellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs) i "Gamau i'w cymryd" (Actions), roedd yr Aelodau'n pryderu nad oedd y dystiolaeth fel y'i cyflwynwyd yn amlygu pa gynlluniau unigol a gaiff eu heffeithio arnynt fwyaf gan y gostyngiad cyffredinol yn y gyllideb ar gyfer Maes Rhaglenni Gwariant ar Blant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion.

7. Er bod yr Aelodau'n croesawu'r cynnydd a nodwyd yn y gyllideb, fel y £1.5 miliwn ychwanegol i ddarparu gwasanaeth cwnsela i holl blant a phobl ifanc Cymru, a'r £0.5 miliwn ychwanegol ar gyfer yr Uned Eiriolaeth Genedlaethol, roedd pryder ynghylch y diffyg eglurder ynghylch ble y byddai gostyngiadau yn y gyllideb yn effeithio ar y ddarpariaeth i blant a phobl ifanc.

**Eglurder o ran ble y gwneir arbedion effeithlonrwydd**

8. Mae'r Aelodau am wybod rhagor ynghylch sut y caiff arbedion effeithlonrwydd eu cyflawni gan ei bod yn bosibl y byddant yn effeithio ar blant a phobl ifanc.

9. Holodd yr Aelodau, er enghraifft, a oedd ymarfer Gwerthuso'r Adolygiad o Wariant wedi sicrhau cymaint â £600 miliwn "o wir arbedion effeithiolrwydd yn hytrach na'u bod yn arbedion sy'n deillio o wrthdyniad tanwariant oherwydd nad yw polisïau y mae arian wedi'i ddyrannu ar eu cyfer wedi'u rhoi ar waith naill ai oherwydd yr amserlen, diffyg staff neu oherwydd ymgais i roi cynifer o brosiectau ar waith."[1]

10. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog yn bendant fod yr adran wedi edrych ar y ffordd yr oedd yn cyflenwi gwasanaethau a'i bod wedi lleihau'r arian hyrwyddo, cyhoeddusrwydd a chyllidebau. Dywedodd fod popeth y gall yr adran fyw hebddo yn gorfod mynd a'i fod yn gorfod mynd at y rheng flaen."[2]

**Tryloywder gwario ar blant a phobl ifanc**

11. Er bod y dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Gweinidog yn ddefnyddiol i egluro rhywfaint am y gwariant a gynlluniwyd ar blant a phobl ifanc drwy bortffolios y Gweinidogion, nododd yr Aelodau eu bod yn parhau i bryderu am y diffyg tryloywder cyffredinol ar wariant perthnasol a gynlluniwyd.

12. Nododd yr Aelodau hefyd fod tryloywder yn rhywbeth a gafodd ei grybwyll gyda'r Gweinidog yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ddiwethaf yn 2008. Croesawodd yr Aelodau dystiolaeth y Gweinidog am waith Cyfarwyddiaeth Ystadegol Cymru a wnaeth gynnydd ar ddadansoddi'r gyfran o gyllideb Llywodraeth Cymru a gaiff ei gwario ar blant. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith o ddadansoddi'r gwariant hyd yn hyn wedi bod ar ffurf a fydd o gymorth i Aelodau yn eu rôl graffu, felly roedd Aelodau'n pryderu am y posibilrwydd o golli'r cysylltiad rhwng y gwaith o ddadansoddi Cyllidebu ar gyfer Plant yng nghyllidebau blaenorol a'r gwaith o gynllunio ymlaen llaw ar gyfer cyllidebau'r dyfodol.

**Cydlynu gwariant a gynlluniwyd ar blant a phobl ifanc**

13. Yn ei thystiolaeth, cyfeiriodd y Gweinidog at Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc fel rhywle lle y trafodir gwariant ar blant a phobl ifanc drwy holl bortffolios Llywodraeth Cymru, gan nodi, yn rhinwedd ei swydd o gadeirio'r pwyllgor hwnnw iddi lwyddo i lywio blaenoriaethu ein polisïau ar draws Llywodraeth Cymru.[3]

14. O gofio'r cyfyngiadau amser ar gyfarfodydd o'r fath, roedd Aelodau'n pryderu y gallai hyn olygu bod hwn yn ddull anfoddhaol o gynllunio cyllideb ffurfiol ac y gallai atal y Gweinidog rhag dylanwadu ar wariant ar bortffolios perthnasol eraill fel gwariant yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

[1] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 13 Hydref 2009.
[2] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 13 Hydref 2009.
[3] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 13 Hydref 2009.

15. Dadleuodd y Gweinidog, fodd bynnag, fod Is-bwyllgor y Cabinet wedi sicrhau blaenoriaeth i feysydd Gofal Plant a Thlodi Plant, fel a ddangoswyd yn y cynnydd yng nghyllideb Dechrau'n Deg.

**Gwario cydlynol ar leddfu tlodi plant**

16. Croesawodd yr Aelodau ymrwymiad cyffredinol Llywodraeth Cymru i gefnogi'r nod o haneru tlodi plant erbyn 2010, a'i ddileu erbyn 2020, a chroesawodd hefyd yr ystod o ymrwymiadau tlodi plant o fewn Cynllun Cyflenwi Cymru'n Un.

17. Er eu bod hefyd yn cefnogi'r gyfres o fentrau ariannu ar draws y Prif Grwpiau Gwariant, nododd Aelodau ei bod yn bosibl i'r canfyddiad o ddiffyg gwario cydlynol ar dlodi plant achosi problemau wrth gyflawni targedau mor uchelgeisiol, o gofio'r cynnydd diweddar yn y ffigurau tlodi plant yng Nghymru i 32% yn 2009[4]. Cydnabu'r Aelodau hefyd fod angen ystod eang o bolisïau er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant, a nododd y Gweinidog ei bod yn bosibl i waith eang, fel gwaith ym maes diweithdra ieuenctid, helpu i leddfu tlodi plant.

18. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau o'r farn ei bod yn bosibl y byddai cynnal a chyhoeddi archwiliad o wariant i ddileu tlodi plant yn cynorthwyo'r Llywodraeth ac eraill i flaenoriaethu arian yn well, oherwydd y byddai angen gwneud penderfyniadau ariannol anodd.

**Dechrau'n Deg a Cymorth**

19. Croesawodd yr Aelodau'r cynnydd o £7 miliwn yn y gyllideb ddrafft ar gyfer rhaglen Dechrau'n Deg. Roedd yr Aelodau'n cydnabod effaith gadarnhaol Dechrau'n Deg, ond nodwyd pryderon ei bod yn bosibl i gyfyngiadau daearyddol y rhaglen atal pobl a allai elwa o'r gwasanaethau, ond a oedd yn byw y tu allan i ardal benodol Dechrau'n Deg, rhag cael mynediad atynt.

20. Roedd yr Aelodau'n pryderu, fodd bynnag, fod tystiolaeth y Gweinidog hefyd yn cynnwys gostyngiad o £7.5 miliwn yn Rhaglen Cymorth, a gofynnodd Angela Burns AC a oedd y Gweinidog yn syml wedi symud yr arian o un gronfa i'r llall.[5] Dadl y Gweinidog oedd bod trosglwyddo'r arian o Cymorth i Dechrau'n Deg yn unol â thema Cymorth, sy'n ymwneud â chefnogaeth teulu, sicrhau bod gan deuluoedd fynediad at y gefnogaeth honno, a chefnogi Dechrau'n Deg yn ddigonol i ddiwallu anghenion y dalgylchoedd a nodwyd gennym.[6]

21. Gofynnodd yr Aelodau i'r Gweinidog ddarparu nodyn ar nifer y lleoedd gofal plant am ddim a ddarperir yng Nghymru ar hyn o bryd, a manylion am nifer y lleoedd gofal plant y byddai'r gyllideb ddrafft yn eu darparu.

[4] Dengys ffigurau blynyddol HBAI (2007/08) a ryddhawyd ym mis Mai 2009,wedi i gostau tai gael eu hystyried, fod 32% o blant Cymru mewn tlodi yn 2008, wedi'u diffinio fel rhai'n byw mewn cartrefi â llai na 60% o ganolrif incwm y DU.
[5] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 13 Hydref 2009.
[6] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 13 Hydref 2009.

22. Nododd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol pe byddai arian ychwanegol ar gyfer ardaloedd Dechrau'n Deg yn galluogi mwy o hyblygrwydd lleol er mwyn cynorthwyo teuluoedd ar y cyrion a oedd yn syrthio y tu hwnt i ffiniau dalgylchoedd presennol y rhaglen.

**Gwybodaeth eglur ar arian a neilltuir ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAHMS)**

23. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad gan y Gweinidog ynghylch a fydd dyraniadau iechyd meddwl o Faes Rhaglenni Gwariant y GIG ar gyfer gwasanaethau plant a'r glasoed yn cael eu cadw ar wahân i'r dyraniadau ar gyfer gwasanaethau oedolion.

24. Er bod y Gweinidog yn darparu tystiolaeth am ddyraniad cyllideb fynegol o £2.184 miliwn o fewn y Gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, roedd yr Aelodau'n bryderus, heb fod arian wedi'i neilltuo yn y dyraniadau mynegol ar gyfer 2010-11, ei bod yn bosibl na fyddai arian digonol yn cael ei wario ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i weithredu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc. Ymrwymodd y Gweinidog i gadarnhau hefyd â'r Gweinidog Iechyd, a fyddai arian ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn cael ei neilltuo.

**Gwybodaeth am y gostyngiad yn y Grant Cynhwysiant a'i effaith ar blant**

25. Wrth drafod materion cyfle cyfartal i bob plentyn yng Nghymru, gofynnodd yr Aelodau am dystiolaeth gan y Gweinidog am y gostyngiad o £300,000 yn y Grant Cynhwysiant[7] cyffredinol i £1 miliwn yn 2010-11.

26. Dywedodd y Gweinidog a'i swyddogion nad oedd yn bosibl iddynt drafod manylion y Grant hwn ar hyn o bryd, ond cytunwyd i anfon manylion ysgrifenedig. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt, "ynghylch grantiau'n ehangach, un o'r gweithgareddau rydym yn edrych arno ar ran y Gweinidog yw sut ydym yn adolygu ein grantiau penodol yn strategol a byddai'n fwy ffafriol edrych ar fwndelu grantiau er mwyn cymryd golwg llawer mwy strategol." Mewn egwyddor, roedd yr Aelodau'n croesawu'r golwg ehangach hwn, oherwydd ei bod yn bosibl iddo osgoi rhywfaint o'r baich biwrocrataidd wrth ymgeisio am grantiau lluosog.

27. O fewn cyd-destun y Grant Cynhwysiant fodd bynnag fel cronfa gyffredinol sy'n cynnwys pob oedran, ynghyd â Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches, Mudwyr, Sipsiwn a Theithwyr, roedd yr Aelodau'n pryderu nad oedd arian o'r fath yn ddigonol i hyrwyddo cynhwysiant yr holl blant a phobl ifanc yng Nghymru.

---

[7] Sefydlwyd y grant hwn yn wreiddiol yn 2002 i ariannu sefydliadau Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches y sector gwirfoddol. Mae'r grant wedi ymestyn ers hynny i gynnwys Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches, Mudwyr, Sipsiwn a Theithwyr

**Arian ar gyfer gwasanaethau allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig, yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n gweithio mewn llochesi**

28. Mynegodd yr Aelodau bryder bod angen i'r gyllideb ddrafft ddarparu arian craidd digonol ar gyfer gwasanaethau allweddol i blant a phobl ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig, yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n gweithio mewn llochesi, a bod gweithwyr allgymorth yn cynorthwyo plant a phobl ifanc sydd wedi symud o lety lloches. Roedd yr Aelodau'n bryderus nad oedd arian a ddarperir ar hyn o bryd drwy Gymorth i Ferched Cymru i'w ddefnyddio i ddiwallu'r diben penodol hwn, ac na fyddai felly'n cymryd lle arian a ddarparwyd mewn blynyddoedd ariannol blaenorol gan sefydliadau'r sector gwirfoddol.

**Rhagor o wybodaeth**

29. Addawodd y Gweinidog i ddarparu i'r Pwyllgor:

- Manylion am nifer y lleoedd gofal plant ychwanegol a ddarperir o ganlyniad i'r cynnydd o £7 miliwn yn yr arian ar gyfer Rhaglen Dechrau'n Deg.
- Bydd y Gweinidog, ar ôl cadarnhau â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ysgrifennu at y Pwyllgor yn rhoi manylion pellach ynghylch a fydd arian wedi'i neilltuo yn nyraniadau 2010-11 ar gyfer plant a phobl ifanc, ar wahân i arian ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl oedolion.
- Bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at y Pwyllgor gyda rhagor o fanylion am yr effaith ddisgwyliedig ar blant o'r gostyngiad yn y Grant Cynhwysiant, o gymharu â'r gyllideb atodol ar gyfer 2009-10, o fewn Maes y Rhaglen Wariant Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

**Argymhellion**

Mae'r Aelodau'n argymell bod:

1. Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi archwiliad ar wariant i leddfu tlodi plant, er mwyn ei helpu'i hun ac eraill i flaenoriaethu arian yn well.

2. O ganlyniad i arian ychwanegol ar gyfer Dechrau'n Deg, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mwy o hyblygrwydd lleol i Gyd-gysylltwyr Dechrau'n Deg gynorthwyo teuluoedd ar y cyrion sydd ar hyn o bryd ar ffin y dalgylchoedd presennol ar gyfer Dechrau'n Deg.

3. Llywodraeth Cymru'n neilltuo arian ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, o fewn yr arian cyffredinol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

4. Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y gyllideb ddrafft yn darparu digon o arian craidd ar gyfer gwasanaethau allweddol i blant a phobl ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig, yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn llochesi a bod gweithwyr allgymorth yn cynorthwyo plant a phobl ifanc sydd wedi symud o lety lloches.